# CYLCHLYTHYR YEPS

## ARGRAFFIAD YR HYDREF

**I gael rhagor o wybodaeth am un o'r erthyglau yn y cylchlythyr hwn, ewch i www.yeps.wales**

## 1. ACHLYSUR DATHLU YEPS 2024!




Cafodd Achlysur Dathlu'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid 2024 ei gynnal ar ddechrau'r haf a rhoddodd gyfle perffaith i ni arddangos a dathlu rhai o gyflawniadau anhygoel pobl ifainc Rhondda Cynon Taf dros y flwyddyn ddiwethaf. Am y tro cyntaf erioed, cynhalion ni'r achlysur ar nos Wener er mwyn i'r noson gael ymdeimlad o barti. Unwaith eto, roedd Theatr y Colisëwm yn Aberdâr yn lleoliad perffaith i gynnal y noson wobrwyo a hefyd y disgo ieuenctid a ddigwyddodd ar ôl y seremoni. Yn rhan o'r 8 categori gwobr gwahanol, gwelson ni enghreifftiau anhygoel o waith ieuenctid cadarnhaol, prosiectau creadigol a straeon personol ysbrydoledig a oedd yn dangos cyfraniad anhygoel pobl ifainc a gwaith ieuenctid.







## 2. PROSIECT GARDD CYMUNEDOL

Datblygodd YEPS brosiect garddio yn yr haf yn Gerddi Stryd Meadow yn Nhrefforest. Roedd y prosiect hwn yn galluogi pobl ifanc i datblygu sgiliau newydd mewn garddio a dysgu sut i ddefnyddio offer newydd wrth wneud ffrindiau newydd ar hyd y ffordd. Trwy ddysgu a gofalu am yr amgylchedd fe ddysgon nhw sut mae gweithredoedd o’r fath yn helpu i ofalu am eu hunain, gofalu am eu hiechyd meddwl, gofalu am eu lles, a gofalu am eu henaid. Ein nod yw rhoi cyfle i fwy o bobl ifanc ymgysylltu a helpu yng ngardd Stryd Meadow yn y dyfodol.



## 3. EISTEDDFOD YN DOD I BONTYPRIDD!




Haf 2024 gwelon ni Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn ymweld â Phontypridd! Drwy gydol wythnos yr Eisteddfod, trefnodd yr Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid deithiau i fynychu'r Eisteddfod. Ymwelodd tua 150 o bobl ifanc gyda YEPS. Roedd y bobl ifanc a fynychodd mor ddiolchgar am y cyfle i brofi’r iaith Gymraeg a’i diwylliant yn y digwyddiad.

# SUMMER PLAY DAYS

4.

Drwy gydol yr haf, trefnodd YEPS 3 diwrnod o hwyl i'r teulu mewn canolfannau hamdden yn Nhonyrefail, Ystrad ac Aberdâr. Roedd y diwrnodau hwyl i'r teulu yn cynnig gweithgareddau fel crefftau, rhyfeloedd nerf, tatŵs gliter, chwaraeon, castell neidio a mwy. Yn ogystal â hyn, roedd gwasanaethau cymorth i deuluoedd allweddol yno i gynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i deuluoedd a phobl ifainc. Roedd yr adborth yn gadarnhaol a daeth dros 900 o bobl dros y tri dyddiad.



5.

# SKATE JAM YSTRAD



Mae Skate Jam yn ddigwyddiad i bobl ifanc arddangos eu sgiliau ar sglefrfyrddau, sgwteri a BMXs. Mae'n noson llawn gweithgareddau hwyliog. Ar gyfer Skate Jam 2024, gofynnodd grŵp o bobl ifanc a allent fod yn rhan o gynllunio'r digwyddiad, gan fod ganddynt syniadau ar sut i wneud y digwyddiad yn fwy cynhwysol, ac roeddent am greu arolwg i gael barn trigolion am y Parc Sglefrio lleol yn Ystrad Rhondda. Mae'r grŵp eisiau gwelliannau i'r parc sglefrio a buddsoddiad i wneud y parc yn fwy hygyrch, mwy diogel ac ychwanegu goleuadau. Cynhaliwyd y digwyddiad Jam Sglefrio ar 23 Awst ac roedd yn llwyddiant ysgubol gyda dros 200 o bobl yn bresennol. Roedd adborth yr arolwg yn anhygoel, siaradodd y grŵp ag oedolion a phobl ifanc am y Parc Sglefrio a sut y gellid gwella'r parc!

6.

## SENEDD IEUENCTID CYMRU

Awst 2024 cafodd y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid ei enwi'n swyddogol yn Sefydliad Partner ar gyfer Senedd Ieuenctid Cymru 2024-2026. Mae hwn yn gyfle cyffrous a gwerthfawr i bobl ifainc leisio'u barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw yng Nghymru a'u hardal leol. Mae Senedd Ieuenctid Cymru yn cynnwys 60 o seddi (40 sedd etholaeth ac 20 asiantaeth bartner), ac o'r rhain mae gennym un sedd, a byddwn ni'n ethol person ifanc o RhCT iddi.

YEPS

Welsh Youth Parliament | Senedd Ieuenctid Cymru

SEFYDLIAD PARTNER

PARTNER ORGANISATION

7.

## CREWYR CYNNWYS YEPS



Yn ddiweddar, cyfarfu Crewyr Cynnwys ym Mhontypridd i ddysgu sut i ddefnyddio'r offer sydd eu hangen i wneud cynnwys ar gyfer ein platfformau.Buon nhw'n siarad am sut i gynllunio darn o gynnwys, pa ddarnau o offer y bydden nhw eu hangen a sut y bydden nhw'n ei gyfarwyddo. Dysgon nhw hefyd sut i ddefnyddio rhai technegau golygu a ffilmio sylfaenol y bydden nhw'n eu defnyddio yn y dyfodol. Fe aethon nhw ati i greu ffilm fer i hyrwyddo'r Crewyr Cynnwys, sydd i'w gweld ar sianel YouTube YEPS.